

Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru

At Sylw: Evan Jones, Dirprwy Glerc

Cyfeirnod: AC472/caf

Dyddiad cyflwyno: 6 Rhagfyr 2024

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter

Caerdydd / Cardiff

CF10 4BZ

Tel / Ffôn: 029 2032 0500

Fax / Ffacs: 029 2032 0600

Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660

info@audit.cymru / post@archwilio.cymru

www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Annwyl Evan

Y Broses a'r Pwerau Uwchgyfeirio sydd ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol

Yn unol â'r cais, dyma nodyn wedi'i atodi yn disgrifio'r broses a'r pwerau uwchgyfeirio sydd ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol.

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth lafar, dechreuodd aelodau'r Pwyllgor ystyried y potensial i symleiddio rhywfaint ar y ddeddfwriaeth ar gyfer archwilio cynghorau tref a chynghorau cymuned. Ers hynny, rydym wedi rhoi rhywfaint o ystyriaeth i fodelau amgen y gellid eu hystyried pe bai'r Pwyllgor yn dymuno argymhell newid deddfwriaethol yn y maes hwn. Disgrifir y rhain yn yr ail bapur sydd wedi'i atodi, a gobeithiaf y bydd y Pwyllgor yn eu hystyried yn ddefnyddiol. Byddem wrth gwrs yn hapus i drafod ymhellach.

Yn gywir



ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Atodiadau

Cyfeirnod: AC472/caf-1
Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2024

**Proses uwchgyfeirio pan fo cynghorau cymuned
a chynghorau tref yng Nghymru yn peidio â
chyflwyno cyfrifon i'w harchwilio**

Cefndir

- 1 Mae adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gwblhau ei gyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn a chyflwyno'r cyfrifon hynny i'r Archwilydd Cyffredinol y mae'n rhaid iddo eu harchwilio.
- 2 Wrth roi tystiolaeth i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2024, nododd yr Archwilydd Cyffredinol broblem barhaus o gynghorau cymuned a chynghorau tref ledled Cymru yn peidio â chyflwyno cyfrifon i'w harchwilio
- 3 Ar 14 Tachwedd roedd y sefyllfa ar gyfer y blynnyddoedd ariannol diwethaf fel y nodir yn Arddangosyn 1 isod:

Arddangosyn 1: Cyfrifon heb eu cyflwyno yn ôl blwyddyn ariannol

Cyfrifon y mae angen eu harchwilio	449	740	740	737	737
Cyfrifon a gyflwynwyd i'w harchwilio	444	729	729	716	641
Cyfrifon heb eu cyflwyno	5	11	11	21	96

Ffynhonnell: dadansoddiad Archwilio Cymru

- 4 Roedd cyfrifon 2023-24 i fod i gael eu cyflwyno i'w harchwilio erbyn 7 Awst 2024 fan bellaf. Fel y gwelir yn arddangosyn 1, ar 14 Tachwedd 2024, roedd 96 o gynghorau heb gyflwyno cyfrifon 2023-24 i'w

harchwilio. Ar 30 Medi 2024 (nad yw'n cael ei ddangos yn arddangosyn 1), y nifer hwn oedd 161.

- 5 Roedd cyfrifon 2022-23 i fod i gael eu cyflwyno i'w harchwilio erbyn 7 Awst 2023 fan bellaf. Ar 30 Medi 2023, roedd 180 o gynghorau heb gyflwyno eu cyfrifon ar gyfer 2022-23.
- 6 Y nifer cyfatebol ar gyfer 2021-22 oedd 150.
- 7 Mae'r data hwn yn dangos bod cyfran sylweddol o gynghorau yn hwyr yn cyflwyno cyfrifon i'w harchwilio.
- 8 Yn dilyn y cyfarfod, gofynnodd y Pwyllgor am ragor o fanylion am y broses uwchgyfeirio a ddilynwyd o ran cynghorau cymuned a chynghorau tref yn peidio â chyflwyno cyfrifon. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd a oedd gan yr Archwilydd Cyffredinol bwerau statudol digonol mewn cysylltiad â phedio â chyflwyno cyfrifon i'w harchwilio.
- 9 Mae'r papur hwn yn nodi'r cefndir statudol, gan gynnwys hawl yr Archwilydd Cyffredinol i gael mynediad at wybodaeth sy'n angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaethau a'r broses a ddilynir gan archwilydwr wrth ymdrin ag achosion o beidio â chyflwyno cyfrifon, ynghyd ag opsiynau adrodd a'r goblygiadau ar gyfer ffioedd.

Hawliau mynediad at wybodaeth yr Archwilydd Cyffredinol

- 10 Nodir hawliau mynediad at wybodaeth yr Archwilydd Cyffredinol ac esboniadau sy'n berthnasol i'r archwiliad yn adran 52 o Ddeddf 2004.
- 11 Mae'r Ddeddf yn darparu bod gan Archwilydd Cyffredinol Cymru hawl mynediad ar bob adeg resymol i bob dogfen sy'n ymwneud â chorff llywodraeth leol yng Nghymru sy'n ei farn ef yn angenrheidiol at ddibenion yr archwiliad. Gall Archwilydd Cyffredinol Cymru ei gwneud yn ofynnol i berson y mae'n credu bod ganddo wybodaeth berthnasol i roi unrhyw gymorth, gwybodaeth ac esboniad y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn credu eu bod yn angenrheidiol at ddibenion yr archwiliad. Yn ogystal, o dan adran 52(4), gall yr Archwilydd Cyffredinol ei gwneud yn ofynnol i'r person y mae'n credu bod ganddo'r wybodaeth berthnasol ddod ger ei fron ef yn bersonol i roi'r cymorth, yr wybodaeth neu'r esboniad, neu i gyflwyno unrhyw ddogfen sy'n cael ei dal neu ei rheoli gan yr unigolyn ac y mae gan yr Archwilydd Cyffredinol hawl mynediad ati.

- 12 Mae adran 53 o'r Ddeddf yn nodi bod person yn cyflawni trosedd os yw'n methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 52(4) heb esgus rhesymol.
- 13 Mater i'r Archwilydd Cyffredinol yw gorfodi ei hawliau a nodir yn adran 52. Mae hyn yn golygu mai mater i'r Archwilydd Cyffredinol yw erlyn os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol.

Opsiynau adrodd ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol

Ffioedd archwilio

- 19 Mae adran 20 o Ddeddf 2004 yn gwneud darpariaeth ar gyfer codi ffioedd archwilio ar gynghorau.
- 20 Codir ein ffioedd archwilio yn unol â darpariaethau Deddf 2004 ac fel y nodir yn adran 20 o Ddeddf 2004, maent yn daladwy yn llawn gan y Cyngor.
- 21 Mae Adran 20 o Ddeddf 2004 yn nodi:
 - rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru godi ffi am y swyddogaethau a arferir gan yr Archwilydd Cyffredinol wrth archwilio cyfrifon y cyngor;
 - rhaid codi'r ffi yn unol â'r Cynllun Ffioedd blynyddol; a
 - rhaid i'r Cyngor dalu'r ffi sy'n daladwy mewn perthynas â'r archwiliad.
- 22 I'r graddau y mae'n rhesymol bosibl gwneud hynny, codir tâl am bob amser a dreulir wrth ymdrin â chyngor unigol yn uniongyrchol ar y cyngor hwnnw.

Ymdrin â chynghorau nad ydynt yn ymateb neu nad ydynt yn cydweithredu.

Proses Archwilio Cymru ar gyfer ymdrin â chynghorau nad ydynt yn ymateb

- 23 Mae pob cyngor yn derbyn hysbysiad archwilio bob blwyddyn - fel arfer tua diwedd mis Mawrth. Mae'r hysbysiad archwilio hwn yn nodi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i'w harchwilio ac yn nodi amserlen

ar gyfer cyflwyno cyfrifon a gwybodaeth ategol angenrheidiol. Mae'r hysbysiad archwilio yn cael ei anfon at y clerc - ein prif bwynt cyswllt gyda'r cyngor.

- 24 Mae llawer o gynghorau yn cyflwyno cyfrifon ychydig ddyddiau'n hwyr. Felly, rydym yn rhoi nodyn atgoffa cyntaf i'r cyngor tua mis ar ôl y dyddiad pan oedd yr archwiliadau/y cyfrifon i fod i gael eu cyflwyno'n wreiddiol. Mae hwn yn e-bost generig a anfonir at bob cyngor sydd ar ei hôl hi. Tua mis yn ddiweddarach, anfonir e-bost generig arall at y cynghorau hynny sy'n parhau i fod ar ei hôl hi. Ar y cam hwn, rydym yn gosod dyddiad cau pellach ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon a'r dogfennau ategol (mae hyn wrth gwrs yn hwyrach na'r dyddiad cau gwreiddiol a osodwyd yn yr hysbysiad archwilio gwreiddiol). Rydym fel arfer yn gofyn i gynghorau ddarparu eu cyfrifon o fewn mis i'r ail e-bost gael ei gyhoeddi. Yn y ddau e-bost rydym yn tynnu sylw at gyfrifoldebau'r cyngor a'r ffaith bod y cyfrifon yn hwyr.
- 25 Mewn llawer o achosion, bydd y ddau nodyn atgoffa hyn yn annog cynghorau i gyflwyno'r cyfrifon. Os nad yw cynghorau'n ymateb i'r negeseuon e-bost hyn, rydym yn mynd ar ôl pob cyngor yn unigol.
- 26 Mae'r broses hon yn cynnwys cadarnhau'r manylion cyswllt sydd gennym i sicrhau bod ein gohebiaeth yn cyrraedd y cyfeiriad cywir. Rydym hefyd yn ceisio nodi pwy yw cadeirydd y cyngor ar y cam hwn a sicrhau bod y cadeirydd yn cael copi o unrhyw ohebiaeth rhyngom â'r clerc. Rydym yn ceisio cytuno ar ddyddiad ar gyfer cyflwyno cyfrifon. Ar y cam hwn, mae'n aml yn wir nad oes unrhyw gyfrifon wedi'u paratoi gan y cyngor. Felly, rydym yn gosod dyddiad cau estynedig pellach ar gyfer cyflwyno er mwyn rhoi amser i'r cyngor baratoi cyfrifon ac i'r cyngor eu cymeradwyo. Gall yr amserlen hon barhau am ddau fis.
- 27 Os nad oes ymateb gwirioneddol ar y cam hwn, rydym yn gofyn i'r cadeirydd a'r clerc fod yn bresennol yn bersonol i ddarparu'r wybodaeth. Er mwyn sicrhau bod gan gynghorau esgus cyfyngedig iawn dros beidio â dod i'r cyfarfod, rydym yn cynnig nifer o ddyddiadau amgen. Ar y cam hwn, bydd cynghorau fel arfer yn darparu'r cyfrifon blynyddol a'r wybodaeth ategol.
- 28 Os bydd cynghorau'n methu â darparu gwybodaeth ar y cam hwn, rydym yn cyfeirio'r mater at ein tîm Cyfraith a Moeseg a fydd yn ysgrifennu at y Cyngor yn hysbysu'r clerc a'r cadeirydd o'u

rhwymedigaethau ac y gallwn ddechrau achos gorfodi os ydynt yn methu â chydymffurfio.

29 Ar bob cam, hysbysir clercod a chadeiryddion y cyngor o'r canlynol:

- mae'n debygol y bydd angen am weithdrefnau archwilio ychwanegol o ganlyniad i'r cyflwyno'n hwyr ac asesiad risg uwch
- opsiynau adrodd posibl sydd ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol
- y tebygolrwydd y codir ffioedd archwilio ychwanegol.

Problemau a wynebwr wrth ddilyn y broses hon

30 Rydym yn aml yn wynebu anawsterau wrth fynd drwy'r broses hon:

- Mae trosiant sylweddol o glercod yn y sector. Pan fyddwn yn nodi bod clerc wedi newid, yn gyffredinol mae'n rhaid i ni ddechrau'r broses gyfan o ymdrin ag achos o beidio â chyflwyno eto fwy neu lai o'r dechrau, gan gynnwys gosod dyddiad realistig newydd ar gyfer cyflwyno'r cyfrifon.
- Mewn llawer o achosion, pan fydd clerc yn gadael, mae'r cyngor yn hepgor neu'n methu trefnu trosglwyddiad trefnus. Yn aml, gwelwn nad yw'r clerc sy'n gadael wedi trosglwyddo unrhyw ddogfennau i'r clerc newydd. Mae hyn yn golygu bod y clerc newydd angen cyfnod ymglyfarwyddo hirach i baratoi'r cyfrifon.
- Yn rhy aml, bydd cynghorau'n darparu rhywfaint ond nid y cyfan o'r wybodaeth sydd ei hangen. Mewn achosion o'r fath, bydd y cynghorau fel arfer yn dweud eu bod wedi darparu popeth, er nad yw hyn yn wir mewn gwirionedd. Gwelwn hefyd, pan fydd cynghorau'n mynychu cyfarfod yn bersonol, nad ydynt yn aml yn dod â'r holl wybodaeth angenrheidiol ac yn addo ei darparu'n fuan neu'n gofyn am ddull arall o ddarparu'r wybodaeth.
- Efallai y bydd cynghorau yn bwydo gwybodaeth i ni fesul tipyn, gan ymestyn y broses yn sylweddol.

31 Yn y rhan fwyaf o achosion, mae cynghorau'n cydweithredu heb unrhyw angen am gamau gorfodi. Fodd bynnag, mewn nifer fach o achosion, mae angen i ni ystyried gorfodaeth drwy'r llysoedd. Mewn achosion o'r fath, mae angen i ni gofio bod adran 53 o Ddeddf 2004 yn nodi bod person yn cyflawni trosedd os nad yw'n cydymffurfio â

gofyniad a osodir o dan adran 52 o Ddeddf 2004 heb esgus rhesymol.

- 32 Fel y nodwyd ym mharagraff 12, mater i'r Archwilydd Cyffredinol yw erlyn os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol. Fodd bynnag, mae erlyniad yn ddrud—byddai ffioedd cyfreithiol yn unig dros £8,000 yn sicr ym mhob achos, a fyddai, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, yn ymddangos yn anghymesur. Felly, yr arfer presennol yn gyffredinol yw ceisio cael cynghorau i gydymffurfio trwy berswâd. Er bod hyn yn gofyn am fwy o amser staff Archwilio Cymru ac nad yw heb gost, bydd yn llai costus na thaliadau am amser cynghorwyr cyfreithiol.

Effaith peidio â chyflwyno ar raddfa fawr

- 33 Mae'r broses hon o fynd ar ôl cynghorau yn defnyddio llawer o adnoddau ac yn cymryd llawer o amser. Mae hyn yn golygu nad ydym yn gallu symud ymlaen mor gyflym ag yr hoffem oherwydd pwysau eraill ar adnoddau sy'n gysylltiedig â'r archwiliadau.
- 34 Ar ben hynny, mae'r amser a aeth heibio i gwblhau archwiliadau yn cael ei ymestyn yn sylweddol gan arwain at yr angen am amser gweinyddu ychwanegol i fonitro cynnydd archwiliadau.

Digonolrwydd y pwerau sydd ar gael i ymdrin â diffyg cydweithredu gan gynghorau

- 35 Cynghorau cymuned a chynghorau tref yw'r cyrff cyhoeddus lleiaf yng Nghymru. Er eu bod gyda'i gilydd yn gwario swm sylweddol o arian cyhoeddus - tua £65 miliwn y flwyddyn, yn unigol maent yn gyfran fach iawn o'r sector cyhoeddus cyffredinol yng Nghymru. Ar ben hynny, mae clerod yn aml yn rhan-amser ac nid ydynt yn derbyn llawer o gefnogaeth i gyflawni eu rolau.
- 36 O ystyried y gost o orfodi hawliau mynediad drwy erlyniad, gallai fod gwerth mewn darparu ar gyfer mecanwaith hysbysiad cosb benodedig. Fodd bynnag, rydym yn gweld rhai anfanteision i drefniant o'r fath.
- 37 Yn gyntaf, gall argaeledd hysbysiadau cosb benodedig weithredu fel anghymhelliad i unigolion ymgymryd â rolau clerc a chynghorydd. Gan ein bod yn deall bod prinder unigolion parod eisoes mewn rhai meysydd, gall hyn fod yn wrthgynhyrchol.

- 38 Yn ail, ni fyddai cyflwyno hysbysiad cosb benodedig yn rhwystro materion rhag mynd i'r llys os nad yw'r unigolyn yn talu'r hysbysiad. Felly, mae'r risg o wariant anghymesur mewn rhai achosion yn parhau.
- 39 Yn gyffredinol, rydym o'r farn bod y trefniadau gorfodi sydd ar gael i'r Archwilydd Cyffredinol yn ddigonol yng nghyd-destun presennol cynghorau cymuned.
- 40 Rydym o'r farn mai'r ffordd orau o sicrhau gwell cydymffurfiaeth â chyflwyno cyfrifon yw drwy addysg broffesiynol a datblygiad clercod a chynghorwyr, a chefnogaeth barhaus iddynt. Mae addysg, datblygiad a chymorth o'r fath yn faterion i'r cynghorau eu hunain yn y lle cyntaf, gan gynnwys trwy eu cymdeithasau (Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC)), ond gall cynghorau elwa ar gefnogaeth ychwanegol gan y Llywodraeth yn y meysydd hyn.
- 41 Er y byddai'n demtasiwn gofyn i archwilwyr ddarparu cefnogaeth o'r fath, byddai darparu gwasanaeth o'r fath i unrhyw raddau sylweddol yn groes i annibyniaeth archwilio o dan delerau Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol.

Cyfeirnod: AC427/caf-2

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2024

Modelau amgen ar gyfer cyfrifon ac archwiliad cynghorau cymuned a chynghorau tref yng Nghymru

Cefndir

- 1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 14 Tachwedd 2024, archwiliodd y Pwyllgor sut y gellid symleiddio'r drefn archwilio gyfredol ar gyfer cynghorau cymuned a chynghorau tref.
- 2 Mae'r papur hwn yn nodi rhai opsiynau ar gyfer diwygio'r fframwaith statudol cyffredinol a allai gynorthwyo diwygio o'r fath. Mae'n ystyried y model archwilio presennol yng Nghymru a'r modelau sy'n berthnasol i gynghorau plwyf yn Lloegr a chynghorau cymuned yn yr Alban.
- 3 Byddai pob un o'r opsiynau a nodir isod yn gofyn am ddiwygiadau i ddeddfwriaeth.

Modelau archwilio cymharol

- 4 Mae gwahaniaethau sylweddol yn y trefniadau archwilio ar gyfer cynghorau cymuned a chynghorau tref Cymru o'i gymharu â'r rhai ar gyfer cynghorau plwyf Lloegr a chynghorau cymuned yr Alban.

Cynghorau cymuned a chynghorau tref yng Nghymru

- 5 Mae adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor wneud eu cyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn a chyflwyno'r cyfrifon hynny i'r Archwilydd Cyffredinol, ac mae'n rhaid iddo eu harchwilio. Yna rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ymgymryd â'r archwiliad a chyflawni ei swyddogaethau o fewn fframwaith Deddf 2004 a'i is-ddeddfwriaeth, Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
- 6 Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys:
 - Archwilio cyfrifon;

- Swyddogaethau adrodd statudol (adrannau 22 i 25);
- Swyddogaethau sy'n ymwneud â chwestiynau etholwyr a gwrthwynebiadau sy'n ymwneud â'r cyfrifon (adrannau 30 a 31); a
- Swyddogaethau'n ymwneud â gwariant anghyfreithlon (adrannau 32 i 34).

7 Mae gofynion Deddf 2004 yn golygu bod yn rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad ym mhob cyngor bob blwyddyn.

Cynghorau plwyf yn Lloegr

- 8 Mae tua 10,000 o gynghorau plwyf a chynghorau tref yn Lloegr. Mae gan y cynghorau hyn yr un pwerau a swyddogaethau â chynghorau cymuned yng Nghymru. Maent yn destun darpariaethau cyfrifon ac archwilio Deddf Archwilio ac Atebolrwydd Lleol 2014, yn amodol ar ddarpariaethau a wneir ar gyfer awdurdodau llai gan Rheoliadau Archwilio Lleol (Awdurdodau Llai) 2015 (y Rheoliadau Awdurdod Llai), a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio 2015 (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio Lloegr).
- 9 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio Lloegr yn gosod yr un cyfrifoldebau yn fras ar gynghorau plwyf Lloegr ag y mae Rheoliadau 2014 (Cymru) yn eu gosod ar gynghorau cymuned yng Nghymru ynghylch paratoi cyfrifon.
- 10 Mae'r Rheoliadau Awdurdodau Llai yn caniatáu, ond nid yn ei gwneud yn ofynnol, i awdurdod llai ardystio eu hunain fel awdurdod wedi'i heithrio am flwyddyn ariannol os:
- bodlonir yr amod cymhwyso ar gyfer yr awdurdod hwnnw a'r flwyddyn ariannol honno - h.y. nad yw'r uchaf o dderbynebaw/incwm a thaliadau/gwariant y cyngor yn fwy na £25,000;
 - nad yw'r flwyddyn ariannol yn un o dair blynedd gyntaf bodolaeth yr awdurdod; ac
 - nad yw rhai amgylchiadau penodedig yn gymwys mewn perthynas â chadw'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol neu archwilio'r cyfrifon hynny. Mae'r amgylchiadau hyn yn cynnwys:

- bod yr Archwilydd Lleol wedi gwneud adroddiad er budd y cyhoedd neu argymhelliad ysgrifenedig mewn perthynas â'r awdurdod neu unrhyw endid sy'n gysylltiedig ag ef;
 - bod yr archwilydd lleol wedi cyhoeddi hysbysiad cynghori ac nid yw wedi tynnu'r hysbysiad yn ôl;
 - bod yr archwilydd lleol wedi dechrau achos adolygiad barnwrol ac nid yw'r achos wedi ei dynnu'n ôl na'r llys wedi canfod yn erbyn yr archwilydd;
 - bod yr archwilydd lleol wedi gwneud cais i'r llys am ddatganiad bod eitem o gyfrif yn anghyfreithlon, ac nad yw'r cais wedi'i dynnu'n ôl ac nad yw'r llys wedi gwrthod gwneud y datganiad; neu
 - bod y llys wedi datgan bod eitem o'r cyfrif yn anghyfreithlon.
- 11 Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o gynghorau plwyf Lloegr sydd ag incwm a gwariant o lai na £25,000 wedi'u heithrio rhag gofynion archwilio arferol.
- 12 Fodd bynnag, mae'n dal yn ofynnol i bob cyngor gwblhau, cymeradwyo a chyhoeddi Adroddiad Llywodraethiant ac Atebolrwydd Blynnyddol.
- 13 Mae cynghorau plwyf Lloegr hefyd yn destun cod tryloywder sy'n gofyn am gyhoeddi cyfrifon a gwybodaeth arall ar-lein ar wefannau'r cyngor. Mae'n ymddangos bod gofynion o'r fath yn fesur darbodus i atal colli atebolrwydd llwyr am wariant yn absenoldeb archwiliad blynnyddol.
- 14 Er bod y rhan fwyaf o gynghorau yn dod o fewn yr eithriad a amlinellir uchod, rhaid i bob cyngor fod ag archwilydd penodedig a fydd yn derbyn unrhyw gwestiynau neu wrthwynebiadau gan etholwyr ac a gaiff ymgymryd â gwaith archwilio mewn perthynas â'r materion hyn.

Cynghorau cymuned yn yr Alban

- 15 Mae cynghorau cymuned yn yr Alban yn dra gwahanol o ran strwythur a swyddogaethau i gynghorau cymuned yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae tua 1,200 o gynghorau cymuned gweithredol yn yr Alban. Yn yr Alban, mae cynghorau cymuned yn sefydliadau gwirfoddol a sefydlwyd o dan gynlluniau y darperir ar eu cyfer drwy statud gan yr awdurdod lleol ac sy'n cael eu cynnal gan drigolion

lleol i weithredu ar ran eu hardaloedd. Mae'r awdurdodau lleol yn goruchwyllo eu cynghorau cymuned lleol yn statudol.

- 16 Mae gan gynghorau cymuned yr Alban lai o swyddogaethau na'u cymheiriaid yn Lloegr neu Gymru. Mae cynghorau cymuned yr Alban yn cynrychioli eu cymunedau i'r awdurdod lleol, yn cynnal arolygon lleol ac yn ymgyrchu ar faterion lleol. Efallai y byddant yn cynnal prosiectau lleol ac yn trefnu digwyddiadau cymunedol.
- 17 Yn benodol, yn wahanol i Gymru a Lloegr, nid oes gan gynghorau cymuned yr Alban yr hawl i godi arian drwy osod praesept ar drethi lleol, ac yn hytrach maent yn ddibynnol ar gyllid grant awdurdodau lleol, a dderbynnir fel arfer ar gyfer costau gweithredu yn unig. Fodd bynnag, gall y cynghorau gael arian ychwanegol fel drwy grantiau'r loteri.
- 18 Yn yr Alban, er bod y cynlluniau sy'n sefydlu cynghorau cymuned yn darparu ar gyfer paratoi cyfrifon a'u harchwilio neu eu hymholi'n annibynnol, nid oes dim yn cyfateb â gofynion statudol Cymru a Lloegr ar gyfer archwilio allanol.
- 19 Mae'r cynlluniau sy'n eu sefydlu yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau baratoi cyfrifon blynyddol a phenodi ymholwr neu archwilydd annibynnol ar gyfer y cyfrifon hynny. Nid oes gofyniad cyffredinol i ymholwyr neu archwilwyr cyfrifon cynghorau cymuned feddu ar gymwysterau proffesiynol; yr unig ofyniad yw eu bod yn annibynnol, h.y. heb fod yn aelodau o'r Cyngor Cymuned. Mae'r rhaglen waith a argymhellir ar gyfer ymholwyr annibynnol ac archwilwyr allanol yn yr Alban yn debyg i'r hyn a wneir gan archwilwyr mewnol yng Nghymru a Lloegr.
- 20 Mae'r grant gweinyddu gan yr awdurdod lleol yn cael ei dalu'n flynyddol, ar ôl cyflwyno cyfrifon blynyddol a ymholwyd neu a archwiliwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.

Modelau posibl ar gyfer Cymru

- 21 Er y gall yr Archwilydd Cyffredinol benderfynu beth i'w archwilio a faint o waith archwilio i'w wneud mewn unrhyw flwyddyn ariannol benodol mewn perthynas â chyfrifon cynghorau cymuned, mae wedi'i gyfyngu gan y gofyniad statudol iddo archwilio cyfrifon pob cyngor cymuned bob blwyddyn. Mae hyn yn golygu y byddai newidiadau sylweddol i'r gofynion archwilio yn debygol iawn o olygu newidiadau i Ddeddf 2004.

- 22 Mae modelau amgen posibl wedi'u nodi isod. Awgrymwn mai egwyddor allweddol y dylid ei chymhwyso wrth ystyried y modelau amgen posibl hyn yw y dylai'r rhai sy'n codi ac yn gwario trethi lleol gael eu dwyn yn atebol am y defnydd o'r trethi lleol hynny.

Opsiwn 1: Amnewid archwiliad gan yr Archwilydd Cyffredinol ag archwiliad neu ymholiad annibynnol arall.

- 23 Opsiwn 1 fyddai mabwysiadu dull tebyg i'r un a ddefnyddir yn yr Alban. Gellid diwygio Deddf 2004 i amnewid y gofyniad i gynghorau gyflwyno'r cyfrifon i'w harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol â gofyniad i gynghorau benodi eu harchwilydd allanol eu hunain. Efallai y bydd yr unigolion sy'n darparu archwiliad mewnol i gynghorau cymuned ar hyn o bryd yn addas i ymgymryd â'r rôl hon, ond byddai hyn ond yn briodol pe bai'r gofyniad presennol ar gyfer archwilio mewnol yn cael ei ddileu.
- 24 Er mwyn sicrhau bod cynghorau yn atebol am yr arian y maent yn ei godi, ei wario a'i reoli, gallai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol atal prae-septau tan iddynt dderbyn cyfrifon wedi'u harchwilio gan y cynghorau cymuned. Fodd bynnag, byddai gwirio cyfrifon wedi'u harchwilio yn dasg ychwanegol i'r awdurdodau.
- 25 Er mwyn sicrhau cysondeb o ran dull gweithredu ar draws y sector, efallai y bydd angen cyhoeddi canllawiau ar gyfer archwilydd allanol cynghorau cymuned a chymorth ychwanegol posibl i gynghorau sy'n chwilio am archwilydd allanol.
- 26 Amlygodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar drefniadau archwilio mewnol yn y sector bryderon ynghylch pa mor ddigonol yw archwiliad mewnol ac amlygodd nad oedd gan oddeutu 10% o gynghorau archwilydd mewnol. Felly, mae'n ymddangos yn eithaf tebygol y gallai rhai cynghorau cymuned wynebu heriau wrth ddod o hyd i bobl addas sy'n fodlon ac yn gallu ymgymryd â'r archwiliad neu'r ymholiad.

Opsiwn 2: Eithrio cynghorau llai o archwiliad gan yr Archwilydd Cyffredinol

- 27 Mae'r model yn Lloegr yn enghraifft lle mae rhai cynghorau wedi'u heithrio rhag gofynion archwilio.

- 28 Gellid gwneud diwygiad i Ddeddf 2004 i gyflwyno eithriad tebyg rhag archwiliad ar gyfer cynghorau llai o dan drothwy penodol (fel yn Lloegr) neu ar gyfer pob cyngor cymuned.
- 29 Byddai angen i gynghorau hysbysebu archwiliad lleol o gyfrifon a hysbysebu hawliau etholwyr i ofyn cwestiynau neu gyflwyno gwrthwynebiadau i gyfrifon ar adeg eu harchwilio ond ni fyddai angen iddynt gyflwyno cyfrifon i'w harchwilio o dan drothwy incwm/gwariant penodol.
- 30 Byddai'n ddyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i ystyried ymgymryd â gwaith archwilio pan fydd materion yn cael eu dwyn i'w sylw yn ystod y cyfnod arolygu, e.e. mewn ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr lleol neu chwythwyr chwiban. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl, er gwaethaf y ddyletswydd hon ar yr Archwilydd Cyffredinol, na fyddai'r rhan fwyaf o gynghorau yn destun archwiliad allanol.
- 31 Un o'r gwendidau gyda'r trefniadau yn Lloegr yw na fydd cynghorau yn paratoi cyfrifon blynyddol, gwneud trefniadau ar gyfer archwilio cyfrifon yn gyhoeddus neu gydymffurfio yn llawn ag unrhyw god tryloywder o bosibl. Rydym yn casglu bod y gofynion hyn yn cael eu hanwybyddu weithiau oherwydd diffyg gofynion archwilio blynyddol, a gall hyn arwain at y cyngor yn wynebu gwariant ychwanegol.
- 32 Mae ein profiad yng Nghymru yn awgrymu y byddai nifer sylweddol o gynghorau yn y sefyllfa hon.

Opsiwn 3: Eithriad cyffredinol rhag archwiliad gan yr Archwilydd Cyffredinol ond gyda gofyniad i gyflwyno cyfrifon i'r Archwilydd Cyffredinol

- 33 Gallai trydydd dewis gynnwys diwygio Deddf 2004, gan gadw'r gofyniad i gynghorau gyflwyno eu cyfrifon i'r Archwilydd Cyffredinol bob blwyddyn ond gyda newid i roi disgresiwn i'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch maint y gwaith archwilio sydd ei angen, gan gynnwys yr opsiwn i beidio ag archwilio'r cyfrifon.
- 34 Yna gallai'r Archwilydd Cyffredinol ystyried a oes angen unrhyw waith archwilio allanol ai peidio. Gall yr ystyriaeth hon gynnwys:
- Adolygiad dadansoddol o'r cyfrifon i nodi tueddiadau a allai fod angen esboniad;
 - Materion sy'n codi mewn blynyddoedd blaenorol;

- Ystyried unrhyw gwestiynau, gwrthwynebiadau neu ohebiaeth arall sy'n gysylltiedig â'r cyfrifon; a
 - P'un a yw'r cyfrifon wedi'u ffeilio'n amserol neu beidio.
- 35 Pan fo'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny, caiff ymgymryd â'r gwaith archwilio sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'i bryderon. Byddai hyn yn caniatáu hyblygrwydd i'r Archwilydd Cyffredinol, mewn ymgynghoriad â'r sector a Llywodraeth Cymru, osod y trothwy pan fo angen archwiliad allanol.
- 36 Pan na wneir unrhyw waith archwilio, ni chyhoeddir barn na thystysgrif archwilio, ac ni chodir ffi archwilio.

Opsiynau Hybrid

- 37 Mae'r opsiynau amrywiol yn debygol o fod â rhai manteision ac anfanteision. Gellid cyfuno'r opsiynau a ddisgrifir uchod mewn rhai ffyrdd i ddarparu opsiynau pellach. Er enghraifft, gellid gwneud gwaith archwilio newydd gan yr Archwilydd Cyffredinol (opsiwn 1) wedi'i gyfyngu i gynghorau llai, fel y rhai sydd o dan drothwy gwariant penodedig (opsiwn 2).
- 38 Er enghraifft, gallai trefniant newydd gynnwys:
- a) Disodli'r gofyniad am archwiliad blynyddol gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer cynghorau cymuned bach gyda gwariant o dan £25,000, â gofyniad i'r cyngor gael archwiliad neu ymholiad annibynnol o rywle arall a darparu cyfrifon a archwiliwyd/ymholwyd i'r Archwilydd Cyffredinol a'r awdurdod bilio y mae'r cyngor yn dymuno derbyn praesept ganddo; ac
 - b) Ar yr amod, pan fydd cyngor yn methu â darparu cyfrifon a archwiliwyd/ymholwyd erbyn dyddiad cau penodol (e.e. 30 Medi), neu pan fo etholwyr neu chwythwyr chwiban yn codi materion nad ydynt yn cael sylw yn adroddiad yr archwilydd/ymholwr, caiff yr Archwilydd Cyffredinol ymgymryd â gwaith archwilio pellach ac adrodd.
- 39 Byddai angen i unrhyw newidiadau fel y rhai a amlinellwyd uchod gadw mewn cof y drwgdeimlad posibl gan gynghorau sy'n herio'r gwaith archwilio a ysgogwyd gan gwestiynau neu wrthwynebiadau, ar y sail eu bod yn ystyried bod cwestiynau a gwrthwynebiadau o'r fath yn ddi-sail neu'n faleisus.

Materion Canlyniadol

- 40 Mae'r sylwadau uchod ond yn mynd i'r afael â'r mater cymharol gul o sut y gellid diwygio'r gofyniad statudol ar gyfer archwilio cynghorau cymuned. Nid ydynt yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion canlyniadol, megis yr effaith ar gynghorau sy'n dymuno arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.
- 41 Yn achos cynghorau sy'n dymuno ymarfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol, ar hyn o bryd mae'n rhaid i gyngor o'r fath fodloni tri amod cymhwyso, ac un ohonynt yw bod yn rhaid i'w ddau adroddiad archwilio diweddaraf fod yn ddiamod. Byddai tynnu'r gofyniad i gael archwiliad allanol blynyddol yn ôl, oni bai bod diwygiadau canlyniadol yn cael eu gwneud i ddeddfwriaeth, yn atal cynghorau sy'n dymuno arfer pŵer cymhwysedd cyffredinol rhag gwneud hyn. Un ffordd o fynd i'r afael â hyn yw diwygio adran 13 o Ddeddf 2004 i ganiatáu i gyngor ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliad mewn unrhyw flwyddyn benodol.
- 42 Cytunir ar ffurf a chynnwys y Datganiad Blynyddol rhwng Archwilio Cymru, Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a Llywodraeth Cymru bob blwyddyn. Mae'r datganiad ei hun yn cael ei gyflwyno i gynghorau gan Archwilio Cymru ochr yn ochr â hysbysiad profforma archwilio fel mater o hwylustod.
- 43 Gallai Archwilio Cymru barhau i gyhoeddi'r datganiadau blynyddol a'r hysbysiadau profforma i gynghorau ar gyfer archwiliad cyhoeddus a chofnodi'r data cyfrifon ar ôl derbyn y datganiadau blynyddol cymeradwy gan y cyngor. Ond gyda llawer o gynghorau ddim yn talu ffioedd archwilio mwyach, byddai angen ystyried a ddylid ariannu rhywfaint neu'r cyfan o'r gwaith sy'n dal i gael ei wneud gan Archwilio Cymru drwy ddarpariaeth yn hytrach na ffioedd a godir i nifer llai o gynghorau.